

Cyflymu Busnesau Cymru



A ydych yn barod am ddyfodiad bandeang cyflym iawn?



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Cynnwys

Beth yn union yw bandeang cyflym iawn?	4
Beth mae'r dechnoleg yn ei wneud?	5
Pa fanteision y gallwch eu disgwyl?	6
Sut yr ydych yn dechrau arni?	8
Beth gallwch ei wneud ar gyflymderau gwahanol	9
Awgrymiadau	10



Bandeang a busnes

Mae bandeang wedi dod yn anghenraid sylfaenol ar gyfer busnes. Mae bandeang cyflym iawn yn ychwanegu dimensiwn ychwanegol i hynny. Nid yn unig yn nhermau cyflymder ond hefyd yn nhermau beth a ellir ei wneud drwy ddefnyddio cysylltiad a dibynadwyedd o'r gwasanaeth.

Galluoga bandeang cyflym iawn i lawer mwy gael ei wneud ar-lein. Er hynny, nid y dechnoleg sy'n bwysig, ond beth allwch ei gwneud gydag ef.

Gall bandeang cyflym iawn wneud prosesau busnes weithio'n well ac fe'ch galluogir chi i wneud pethau mwy a gwell, gan ymestyn eich cyrraedd a'ch potensial.

Beth yn union yw bandeang cyflym iawn?

Trosglwyddir bandeang traddodiadol (a adnabyddir fel ADSL) drwy llinellau ffôn copr, tra mae bandeang cyflym iawn yn defnyddio ceblau ffibr optig sy'n ei wneud yn gyflymach ac yn fwy dibynadwy.

Yng Nghymru, cyflymder cyfartalog bandeang ar hyn o bryd yw oddeutu 9Mbps. Bydd bandeang cyflym iawn yn cynyddu hyn i 330Mbps, gan drawsnewid byd gwaith a hamdden i bobl ar draws Cymru.

Mae'r union gyflymder yr ydych yn ei gael yn dibynnu hefyd ar nifer o ffactorau ychwanegol – hyd eich llinell o'r gyfnewidfa deileffon neu gabinet gwyrdd; ansawdd y llinell a'r offer; a gwifrau mewnol y tu fewn i'ch safle. Mae Cyflymu Cymru yn gweithio'n galed i sicrhau fod pawb yn cael cyflymder mor gyflym â phosibl o ystyried eu lleoliad daearyddol.

Canfyddwch pryd fydd bandeang cyflym iawn ar gael yn eich ardal drwy fynd i: www.superfast-cymru.com/where-and-when?lang=_alt

Beth mae'r dechnoleg yn ei wneud?

Defnyddia bandeang cyflym iawn geblau ffibr optig i drosglwyddo cyflymderau uwch, mwy o le, a dibynadwyedd uwch. Ar hyn o bryd, mae dwy ffordd o gyflwyno'r dechnoleg hon i fusnes neu ddefnyddiwr cartref:



Trosglwydda FTTC (cysylltiad ffibr i'r cabinet) linellau ffibr optig i gabinet yn y stryd ac yna llinellau ffôn copr i'ch adeilad. Gall hyn drosglwyddo cyflymderau o hyd at 80Mbps ar gyfer lawrlwythiadau (o'i gymharu â 5-6Mbps ar fandeanng ADSL sylfaenol).



Trosglwydda FTTP (cysylltiad ffibr i'r adeilad) linellau ffibr optig yn syth i'ch adeilad, gan ei wneud hyd yn oed yn gyflymach. Gall hyn drosglwyddo cyflymderau llwytho i lawr o hyd at 330Mbps ar hyn o bryd.

Nid yw'r union gyflymder yr ydych yn ei gael yn dibynnu ar eich lleoliad yn unig. Fe'i heffeithir hefyd gan y pecyn yr ydych yn ei brynu gan eich darparwr bandeang cyflym iawn. Cymharwch y pecynnau i sicrhau eich bod yn dewis yr un iawn i'ch busnes.

Pa fanteision y gallwch eu disgwyl?

- **Cynnydd mewn cynhyrchiant** – gall cyflwyno gweithio hyblyg ganiatáu i staff fod yn fwy gweithgar, lleihau absenoldebau a gwella morâl.
- **Cynnydd mewn effeithlonrwydd** – mae bandeang cyflymach yn rhoi llwyfan mwy dibynadwy i chi fel bod sawl defnyddiwr yn gallu defnyddio'r un cysylltiad gwasanaeth heb arafu.
- **Cynnydd mewn ffyddlondeb cwsmeriaid** – bydd dadansoddiad manwl yn caniatáu i chi gyfathrebu gyda'ch cwsmeriaid yn ystod yr amser maen nhw fwyaf tebygol o brynu.



- **Y feddalwedd ddiweddaraf** – gallwch fanteisio ar y feddalwedd busnes diweddaraf a gorau trwy'r cwmwl, ynghyd â nodweddion megis ategu data yn ddi-oed a fydd yn dileu'r angen am ddiogelwch ac uwchraddio.

- **Diogelwch eich asedau** – Diogelwch eich data cwsmer, cynnyrch a masnachol yn hyderus gan ddefnyddio gwasanaethau cyfrifiadura cwmwl.





- **Arbedwch arian** – gostyngwch gostau TG drwy ddefnyddio gwasanaethau system gwmwl; costau teithio drwy ddefnyddio fideo gynadledda manylder uwch; costau ffôn drwy ddefnyddio Protocol Llais dros y Rhyngrywyd (VOIP) ac argostau gyda gweithio hyblyg.
- **Cael gwared â ffiniau** – gwnewch fusnes gydag unrhyw un, unrhyw le, unrhyw bryd. Mae rhwydweithiau preifat rhithwir a chymwysiaidau eraill yn golygu fod gweithio o adref ac yn symudol yn integredig a chyson ar draws pob dyfais.



- **Cynyddwch eich elw** – mae llai o dreuliau a mwy o ymgysylltiad gyda chwsmeriaid yn dod â mwy o elw.
- **Gwasanaeth cwsmeriaid gwell** – mae fideo gynadledda a chyfryngau cymdeithasol yn ffyrdd cost-effeithiol o ymgysylltu â chwsmeriaid a chyflenwyr.
- **Helpwch yr amgylchedd AC arbedwch arian** – mae llai o deithio i'r swyddfa ac i gyfarfodydd wyneb yn wyneb yn golygu ôl troed carbon llai a llai o ddefnyddio tanwydd. Mae newid i weinyddwyr rhithwir a gwasanaeth cyfrifiadura cwmwl yn golygu angen llai am weinyddwyr sydd angen egni ymhob swyddfa, tra mae rhwydweithiau preifat rhithwir yn caniatáu i gyfrifiaduron fod yn bell, sy'n torri lawr ar ddefnyddio egni, arbed arian ac yn helpu i amddiffyn yr amgylchedd.

Sut yr ydych yn dechrau arni?

Mae'r broses o gyflwyno bandeang cyflym iawn yn raddol, felly'r cam cyntaf ydi gwirio argaeledd yn eich ardal yn:

www.superfast-cymru.com/where-and-when?lang=_alt

Byddwch wedyn angen canfod darparwr gwasanaeth rhyngwyd a chofrestru am y pecyn gorau i chi. Nid yw pob darparwr yn cynnig yr un gwasanaeth, felly gwiriwch eu cynigion a'u costau. Dylai uwchraddio fod yn broses syml. Bydd peiriannydd yn galw ac yn gosod y modem yn eich adeilad a byddwch yn derbyn llwybrydd gan eich darparwr gwasanaeth rhyngwyd. Ni fydd angen newid eich offer ffôn a chyfrifiadur eraill.

I ennill y fantais fwyaf dylech ystyried cynllun Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (ICT) i asesu beth a ellir ei gyflawni gyda'ch gallu gwell:

- Ystyried sut a lle cewch fantais
- Gwerthuso y cyfleon sy'n codi
- Cynllunio unrhyw newidiadau i'ch prosesau
- Dechrau chwilio am a gweithredu datrysiadau
- Monitro manteision



BETH GALLWCH EI WNEUD AR GYFLYMDERAU GWAHANOL

Cyflymder	Gwefan/ e-bost	Cwmwl	Fideo gynadledda	Gweithio o bell
5mb	✓			
10mb	✓	✓		
15mb	✓	✓	✓	
24mb	✓	✓	✓	✓
100mb	✓	✓	✓	✓

Canfyddwch faint o arian fedr wch chi ei arbed drwy fynd i:

www.business.wales.gov.uk/superfastbusinesswales/cy/cyfrifwr-arbedion



Awgrymiadau

Byddwch barod

Hyd yn oed cyn i chi osod bandeang cyflym iawn, gallwch gynllunio sut yr ydych am wneud y mwyaf ohono.

Mae'n fwy na'r dechnoleg yn unig

Y gwahaniaeth mwyaf yw sut y gall wella'r ffordd yr ydych yn gwneud busnes.

Mae'n rhaid i chi weithredu

Bydd eich gwasanaeth bandeang yn parhau'r un fath oni bai eich bod yn uwchraddio i becyn bandeang cyflym iawn.

Dewiswch yn dda

Cymharwch y gwasanaethau a gynigir gan yr amryw ddarparwyr gwasanaeth.

Ymchwiliwch y cwmwl

Canfyddwch wasanaethau a all uwchraddio eich gallu neu a all arbed arian i chi ar draws eich cysylltiad newydd a dibynadwy.

Gwiriwch osodiad presennol eich cyfrifiadur

Efallai bod eich offer yn gallu cysylltu i fandeanng cyflym iawn, ond efallai ei fod angen ei uwchraddio i gael y defnydd gorau o'r llif data ychwanegol. Unwaith bydd cyflymderau llinell yn peidio â bod yn ffactor gyfyngedig, gallai cyflymderau prosesu fod yn gyfyngydd.

Ystyriwch symud ffonau i VOIP

Mae systemau Protocol Llais dros y Rhyngwrwd (VOIP) yn defnyddio eich cysylltiad bandeang cyflym iawn a gall weithio yn fwy effeithiol, gostio'n llai ac ychwanegu swyddogaeth. Ewch i'n Canllaw VOIP ar ein gwefan.

Cyflwynwch bolisi gweithio hyblyg

Gall gweithio hyblyg wella cynhyrchiant mewn rhai busnesau, cynyddu eich potensial am amrywiaeth a rhoi mwy o le yn eich swyddfa i ehangu. Sicrhewch fod yr holl weithwyr yn deall telerau gweithio hyblyg a monitrowch gynhyrchiant i sicrhau bod manteision yn cael eu cyflawni.

Monitrowch fanteision

Mesurwch eich cynhyrchiant cyn gosod i sicrhau y gallwch fesur a deall effeithiau'r cysylltiad newydd.

Parhewch i fonitro'r farchnad

Wrth i'ch anghenion newid a'r dechnoleg barhau i wella, sicrhewch eich bod yn gwybod os ydych eisiau newid cyflenwyr neu dechnoleg ai peidio, a gwnewch hynny mewn proses a reolir.



Cyflymu Busnesau Cymru

I ategu cyflwyniad bandeang cyflym iawn ar draws Cymru, gallwch gael cyngor ar beth allwch ei wneud unwaith mae ar gael i chi, a beth allwch chi ei wneud yn y cyfamser i sicrhau bod eich busnes yn cael y mwyaf o fandeang cyflym iawn.

- Tyfwch eich busnes
- Hybwch gynhyrchiant
- Cynyddwch effeithlonrwydd
- Gostyngwch eich costau

**Am fwy o wybodaeth ac i lwytho i lawr canllawiau
'Sut i...,' ewch i:**

www.business.wales.gov.uk/superfastbusinesswales/cy

03000 6 03000



Llywodraeth Cymru
Welsh Government